

Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Ystafelloedd Ymgynghori Spire
Abergele

Dyddiad arolygu: 23 Hydref 2018

Dyddiad cyhoeddi: 24 Ionawr
2019

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	8
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	12
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	16
4.	Beth nesaf?	20
5.	Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol	22
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	23
	Atodiad B – Cynllun gwella.....	24

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele ar 23 Hydref 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o arolygwyr AGIC ac adolygwr cymheiriaid clinigol. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan reolwr arolygu AGIC.

Ystyriodd AGIC sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau Gofal 2000, gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011 a Safonau Gofynnol Cenedlaethol Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol Cymru.

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau gwasanaeth annibynnol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, nodwyd bod gan Ystafelloedd Ymgynghori Spire drefniadau ar waith i hybu diogelwch a lles cleifion sy'n mynychu'r clinig.

Fodd bynnag, roedd peth tystiolaeth nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio'n llawn â'r holl safonau/rheoliadau ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Yr amgylchedd a chyfleusterau
- Gwybodaeth Cleifion a chyfathrebu
- Polisiâu a gweithdrefnau
- Cadw cofnodion
- Trosolwg rheolwyr
- Archwilio ac adrodd

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofnodi hanes meddygol blaenorol cleifion
- Cofnodi cydsyniad cleifion i driniaeth
- Cofnodi cynnig gwarchodwr
- Diweddarau'r Datganiad o Ddiben

Ni nodwyd unrhyw feysydd lle'r oedd diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Caiff Ystafelloedd Ymgynghori Abergele, Priory House, Parc Busnes Gogledd Cymru, Abergele eu gweithredu gan Spire Healthcare Limited. Cofrestrwyd yr ystafelloedd ymgynghori gyntaf ar 28 Awst 2009.

Mae'r gwasanaeth yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys 3 nyrs, 1 cynorthwydd gofal iechyd, 3 aelod o staff gweinyddol/derbynfa ac 1 rheolwr clinigol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cyflogi 5 nyrs gronfa, 1 cynorthwydd gofal iechyd cronfa ac 1 aelod o staff gweinyddol/derbynfa.

Roedd Ystafelloedd Ymgynghori Abergele yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ysbyty preifat gan gynnwys pelydr-x a mân driniaethau i oedolion ac ymgynghoriadau cleifion allanol yn unig i blant.

Cyfeirir at Ystafelloedd Ymgynghori Abergele fel y clinig yng nghorff yr adroddiad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Darparodd y cleifion adborth cadarnhaol ynghylch eu profiadau o ddefnyddio gwasanaethau yn y clinig.

Nodwyd bod staff y clinig yn trin cleifion mewn ffordd gwrtais a pharchus. Gwelsom fod trefniadau ar waith i hybu a diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion. Roedd trefniadau hefyd ar waith i gleifion roi eu barn am wasanaethau'r clinig.

Cyn yr arolygiad, gwnaethom wahodd y gwasanaeth i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn casglu barn am y gwasanaethau a ddarparwyd. Cwblhawyd 10 holiadur. Yn gyffredinol, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol, a nodwyd bod y gofal a'r driniaeth a gawsant yn ardderchog.

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion am sut y gallant gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u lles eu hunain.

Roedd taflenni ar gael yn yr ystafell aros yn ymwneud â'r gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig yn y clinig. Roedd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Hefyd, mae gan y gwasanaeth wefan gynhwysfawr sy'n nodi pa wasanaethau a gynigir yn y clinig a pha wasanaethau a gynigir gan y sefydliad mewn cyfleusterau eraill.

Urddas a pharch

Roedd pob claf a gwblhaodd holiadur yn cytuno bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn gwrandao arnynt. Hefyd, dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn garedig ac yn sensitif wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Roedd trefniadau ar waith i hybu preifatrwydd ac urddas y cleifion a gwelsom y staff yn ymgysylltu â nhw mewn ffordd barchus a phroffesiynol, yn ystod sgysiau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.

Roedd gan y clinig chwe ystafell ymgynghori helaeth, ar wahân, ddarparedig. Gwelsom fod y drysau ar gau yn ystod ymgynghoriadau. Darparwyd llenni untro

o amgylch gwelyau archwilio er mwyn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion yn ystod ymgynghoriadau neu pan oeddent yn cael triniaeth.

Arddangoswyd gwybodaeth yn hysbysu cleifion o'u hawl i gael gwarchodwr yn bresennol pan fyddent yn gweld aelod o staff gofal iechyd. Nod defnyddio gwarchodwyr yw diogelu'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a'r claf pan gaiff y claf ei archwilio gan y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol. Fodd bynnag, o edrych ar nodiadau meddygol, nodwyd nad oedd cynnig gwarchodwr yn cael ei gofnodi bob amser.

Gwelsom staff y dderbynfa yn croesawu'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn siarad â nhw mewn ffordd gwrtais. Hefyd, dywedodd y cleifion a wnaeth sylwadau bod y staff bob amser yn gwrtais ac yn garedig wrth ddarparu gofal a thriniaeth.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinigwyr gofnodi cynnig gwarchodwr yn nodiadau meddygol y cleifion.

Gwybodaeth cleifion a chyfathrebu

Fel y nodwyd yn gynharach roedd peth deunydd hybu iechyd ar gael.

Roedd y personau cofrestredig wedi llunio Datganiad o Ddiben a Chanllaw i Gleifion fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Mae'r rhain yn rhoi gwybodaeth am y clinig ac roeddent yn cynnwys gwybodaeth am y gwasanaethau oedd yn cael eu cynnig, sut y gellid cael gafael arnynt a'r trefniadau o ran cydsynio i driniaeth. Hefyd, roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar gael cydsyniad dilys gan gleifion. Fodd bynnag, nodwyd nad oedd clinigwyr bob amser yn cofnodi mewn nodiadau meddygol pryd roedd y cleifion wedi rhoi cydsyniad ar lafar i gael archwiliad neu driniaeth.

Mae angen i'r Datganiad o Ddiben gael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau rheoli cyfredol ac adlewyrchu'r ffaith na chynigir triniaethau laser cosmetig mwyach.

Roedd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur yn cytuno ei fod wedi cael digon o wybodaeth am ei driniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am yr opsiynau triniaeth gwahanol oedd ar gael ac unrhyw risgiau cysylltiedig, a gwybodaeth am y costau dan sylw.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylai'r clinigwyr gofnodi mewn nodiadau meddygol pryd mae'r cleifion yn rhoi cydsyniad ar lafar i gael archwiliad neu driniaeth.

Mae'n rhaid i'r datganiad o ddiben gael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau rheoli cyfredol ac adlewyrchu'r ffaith na chynigir triniaethau laser cosmetig yn y clinig mwyach.

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd y rhan fwyaf o'r wybodaeth a ddarparwyd ar ffurf taflenni ac ar y wefan yn Saesneg yn unig. O ystyried bod y clinig yn gweithredu yng Nghymru, dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Dylid hefyd ymdrechu i ddarparu gwybodaeth mewn ieithoedd a fformatau eraill, gan ystyried anghenion a dymuniadau cyfathrebu'r cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Roedd dolen sain ar gael i gynorthwyo'r rheini sy'n drwm eu clyw (ac sy'n gwisgo cymhorthion clyw) er mwyn cyfathrebu â'r staff yn y clinig.

Gwelsom arwyddion dwyieithog addas i helpu'r cleifion i fynd o amgylch y clinig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.

Cynllunio a darparu gofal

Nodwyd y trefniadau ar gyfer darparu gofal a thriniaeth yn y Datganiad o Ddiben.

Yn gyffredinol, cafwyd mynediad at wasanaethau'r clinig drwy atgyfeiriad gan Feddyg Teulu'r claf. Yn achos rhai gwasanaethau, gallai'r cleifion atgyfeirio eu hunain. Cafodd trefniadau eu disgrifio ar gyfer asesu cleifion gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol er mwyn nodi anghenion gofal a thriniaeth unigol cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod y clinig yn monitro hunanatgyfeiriadau er mwyn sicrhau eu bod yn briodol ac nad oedd y cleifion yn cael eu gweld gan feddygon ymgynghorol nac yn cael eu trin yn ddiangen.

Nodwyd bod Meddygon Teulu, wrth atgyfeirio cleifion at y clinig, fel arfer yn darparu gwybodaeth gefndir gynhwysfawr am hanes meddygol, meddyginiaeth ar bresgripsiwn, alergeddau ac ati. Fodd bynnag, wrth edrych ar sampl o ffeiliau meddygol cleifion, nodwyd nad oedd hyn yn wir bob amser ac, o ran y cleifion hynny oedd yn atgyfeirio eu hunain at y clinig, ychydig iawn o wybodaeth gefndir oedd yn cael ei chofnodi ar ffeil. Mae'n bwysig sicrhau y gofynnir am y wybodaeth hon cyn ymgynghoriad neu y gofynnir amdani ac y'i cofnodir yn ystod ymgynghoriad er mwyn sicrhau bod y claf yn derbyn triniaeth ddiogel ac effeithiol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Lle na chaiff ei darparu yn y ddogfennaeth atgyfeirio, rhaid i'r clinigwyr sy'n gweithio yn y clinig ddwyn ynghyd a chofnodi gwybodaeth am hanes meddygol cleifion, ynghyd â'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn, alergeddau ac ati er mwyn sicrhau bod y claf yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Mae'r Datganiad o Ddiben, y Canllaw i Gleifion a'r wybodaeth a roddir ar wefan y clinig yn nodi'n glir bod gwasanaethau yn cael eu darparu gan roi sylw dyledus i hawliau cleifion.

Roedd llefydd parcio i bobl anabl ar gael wrth ymyl y clinig ac roedd mynediad gwastad da i'r brif fynedfa. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiled i gleifion a'r ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli ar y llawr daear. Cafwyd mynediad i'r llawr cyntaf drwy set o risiau a lifft. Roedd yr ardal hon yn cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau awdioleg a hyfforddiant staff ar adeg yr arolygiad.

Ymgysylltu â dinasyddion ac adborth

Roedd cyfleoedd i'r cleifion sôn am eu profiadau o ymweld â'r clinig drwy holiaduron oedd ar gael yn yr ystafell aros lle gallai'r cleifion roi adborth yn barhaus. Cynhaliwyd arolygon boddhad bob mis er mwyn nodi barn y cleifion. Roedd yn amlwg bod y sylwadau a gafwyd gan y cleifion wedi cael eu hystyried gan y staff a bod camau wedi cael eu cymryd i wneud gwelliannau lle y bo'n briodol.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Nodwyd bod y staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal diogel ac effeithiol i'r cleifion.

Roedd gan y clinig drefniadau ar waith i hybu diogelwch a lles cleifion, ymwelwyr a staff.

Roedd y clinig yn lân ac yn daclus ac roedd trefniadau ar waith i leihau croesheintio.

Roedd prosesau rheoli meddyginiaeth da ar waith ynghyd â phrosesau effeithiol i archwilio'r cyfarpar oedd yn cael ei ddefnyddio.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd amgylchedd y clinig i'w weld mewn cyflwr da.

Nodwyd bod pob ardal yn lân ac yn daclus, heb unrhyw beryglon amlwg.

Roedd allanfeydd tân a llwybrau dianc wedi'u nodi'n glir. Gwelsom gofnodion i ddangos bod ymarferion tân yn cael eu cynnal yn rheolaidd. Roedd cyfarpar diogelwch tân a dyfeisiau trydanol cludadwy wedi'u harchwilio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd asesiadau risg cyffredinol yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y clinig. Roedd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur yn cytuno'n gryf fod yr amgylchedd yn lân ac yn daclus.

Roedd polisiau a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i helpu staff i atal a rheoli heintiau. Roedd un o'r cynorthwyr gofal iechyd yn bennaf cyfrifol am atal a rheoli heintiau yn y clinig. Roedd pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant diweddaraf yn y maes hwn.

Gwelsom fod y clinig yn lân ac yn daclus. Hefyd, gwelsom fod modd i'r staff ddefnyddio cyfarpar diogelu personol (PPE) er mwyn helpu i atal croesheintio. Roedd cyfleusterau golchi dwylo ar gael. Mae'n bwysig golchi dwylo yn effeithiol er mwyn hybu atal a rheoli heintiau.

Roedd mân lawdriniaethau yn cael eu cyflawni gan rai o'r clinigwyr sy'n defnyddio'r clinig. Roedd y teclynnau a ddefnyddiwyd ond yn cael eu defnyddio unwaith am bob claf. Golygai hyn nad oedd yn rhaid dihalogi teclynnau a oedd felly'n hybu gweithdrefnau atal a rheoli heintiau effeithiol. Gwelsom fod cyfarpar miniog meddygol (fel nodwyddau) wedi'u gosod mewn cynwysyddion priodol i'w gwaredu'n ddiogel. Mae hyn yn helpu i leihau'r risg o anaf (i'r staff a'r cleifion) ynghyd â chroesheintio o gyfarpar miniog sydd wedi'i ddefnyddio.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar reoli'r meddyginiaethau oedd yn cael eu defnyddio yn y clinig.

Roedd un o'r nyrsys yn gyfrifol am reoli meddyginiaethau. Fel rhan o hyn goruchwyliwyd y broses o archebu a derbyn meddyginiaethau, ynghyd â'u storio a'u gwaredu'n ddiogel. Roedd hefyd yn bosibl cysylltu â fferyllydd, wedi'i leoli yn Ysbyty Iâl Spire yn Wrecsam, er mwyn cael arweiniad a chymorth ar gyfer y staff lle bo angen.

Gwelsom fod meddyginiaethau yn y clinig yn cael eu storio'n ddiogel a dan glo. Roedd cofnodion yn cael eu cadw o'r meddyginiaethau a roddwyd i'r cleifion. Dangosodd y cofnodion hyn fod y cleifion wedi cael eu holi am alergeddau hysbys er mwyn hybu eu diogelwch a'u lles cyn i feddyginiaeth gael ei rhagnodi/gweinyddu fel rhan o'u gofal a'u triniaeth.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael er mwyn hysbysu'r staff am y camau i'w cymryd petaent yn amau cam-drin plant neu oedolion sy'n wynebu risg. Roedd y rhain yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer timau diogelu byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Roedd staff y clinig wedi cwblhau hyfforddiant diogelu i lefel oedd yn briodol i'w rolau. Cyflogwyd prif nyrs ddiogelu er mwyn goruchwyllo hyfforddiant staff a rheoli atgyfeiriadau.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Roedd amrywiaeth o offer ar gael yn y clinig i gefnogi'r gwaith o ddarparu gofal a thriniaeth i'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth bod yr offer hwn yn cael ei

brofi/calibradu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio ac yn darparu darlleniadau cywir.

Roedd offer a chyffuriau i'w defnyddio petai argyfwng claf (cwympto) ar gael ac roedd y staff wedi cael hyfforddiant dadebru addas.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd tystiolaeth o waith amlddisgyblaethol da iawn rhwng y staff nyrsio, y staff meddygol a'r staff therapi.

O'n trafodaethau â'r staff ac o edrych ar ddogfennaeth gofal cleifion, gwelsom fod y cleifion yn cael gofal diogel a chlinigol effeithiol.

Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ysgrifenedig ar gael i gefnogi gweithredu'r clinig. Roedd y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Roedd polisiâu a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd yn ymweld yn ymarfer yn unol â chanllawiau clinigol seiliedig ar dystiolaeth.

Adolygwyd sampl o gofnodion meddygol y cleifion a nodwyd eu bod yn drefnus ac yn ddealladwy. Roedd y cofnodion a welwyd yn cynnwys manylion y clinigydd oedd yn llunio'r cofnod ynghyd â digon o fanylion am y canfyddiadau clinigol a'r gofal/triniaeth a roddwyd i bob claf. Nid oedd un cofnod a welwyd yn cynnwys llofnod y clinigydd na dyddiad yr ymgynghoriad. Gwelsom fod y cofnodion hyn yn cael eu storio'n ddiogel pan nad oeddent yn cael eu defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r clinigwyr sicrhau eu bod yn llofnodi ac yn dyddio cofnodion gofal y cleifion ar ôl pob ymgynghoriad.

Rheoli gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd fframwaith llywodraethu gwybodaeth cadarn ar waith ac roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw cofnodion cywir a chadw cyfrinachedd.

Drwy archwilio cofnodion hyfforddi, gwnaethom gadarnhau bod y staff wedi cael hyfforddiant ar lywodraethu gwybodaeth.

Rheoli cofnodion

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i sicrhau bod gwybodaeth bersonol am gleifion a staff yn cael ei chadw'n ddiogel, yn electronig ac ar bapur.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun yn erbyn y Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Roedd systemau arwain a rheoli da ar waith yn y clinig gyda'r staff yn gadarnhaol wrth sôn am y cymorth roeddent yn ei gael gan y rheolwr.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael eu trin yn deg yn y gwaith a bod diwylliant agored a chefnogol yn bodoli. Hefyd, nododd y staff eu bod yn ymwybodol o'r strwythur uwch reoli o fewn y sefydliad a bod y cyfathrebu rhwng yr uwch reolwyr a'r staff yn effeithiol ar y cyfan.

Gallai'r staff ddisgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau unigol a dywedwyd wrthym eu bod yn gallu cael yr hyfforddiant a'r arweiniad roedd eu hangen er mwyn cyflawni eu dyletswyddau.

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd strwythur rheoli cadarn ar waith a disgrifiwyd llinellau adrodd clir.

Roedd systemau a phrosesau wedi'u diffinio'n dda ar waith er mwyn sicrhau bod y ffocws ar wella'r gwasanaethau yn barhaus. Cyflawnwyd hyn yn rhannol drwy raglen archwilio dreigl a'i strwythur llywodraethu sefydledig oedd yn galluogi aelodau enwebedig o staff i gyfarfod yn rheolaidd er mwyn trafod y canlyniadau clinigol oedd yn gysylltiedig â darparu gofal cleifion.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, dywedwyd wrthym fod prosesau goruchwyllo a chynorthwyo staff anffurfiol, dydd i ddydd da ar waith. Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu gwaith gan eu rheolwr a'u cydweithwyr.

Gwelsom fod cysylltiadau da â rheolwyr eraill a leolwyd yn Ysbyty lân Spire yn Wrecsam, gyda chynadleddau ffôn yn cael eu cynnal bob bore er mwyn rhannu gwybodaeth am unrhyw faterion oedd yn dod i'r amlwg a rhybuddion diogelwch ac ati. Yna rhannwyd y wybodaeth hon â'r holl staff oedd yn gweithio yn y clinig drwy gyfarfod math sgrym. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn ei gwneud yn bosibl i ddyrannu a chynllunio gwaith.

Dywedwyd wrthym fod aelodau o dîm uwch reoli Spire yn ymweld â'r clinig yn rheolaidd fel rhan o'u cyfrifoldebau llywodraethu. Mae aelodau o dîm adolygu clinigol y sefydliad yn ymweld yn rheolaidd ac mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn ymweld bob mis. Cyflwynwyd adroddiadau archwilio misol i fwrdd rheoli'r clinig.

Dangosodd y cofnodion fod yr unigolyn cyfrifol, neu ei gynrychiolydd enwebedig, wedi ymweld â'r clinig o leiaf unwaith bob chwe mis yn unol â'r rheoliadau. Diben yr ymweliadau hyn yw ystyried gwahanol agweddau ar ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.

Roeddem yn fodlon ar y graddau y goruchwyliwyd y gwasanaeth gan aelodau o'r uwch dîm rheoli a'r bwrdd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, o ran ymweliadau â'r clinig a llunio a rhannu adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

Yr hyn sydd angen ei wella

Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, o ran ymweliadau â'r clinig a llunio adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Dywedodd ychydig dan hanner y cleifion a wnaeth gwblhau holiadur na fyddent yn gwybod sut i wneud cwyn os nad oeddent yn fodlon ar y gwasanaeth oedd yn cael ei ddarparu yn y clinig.

Fodd bynnag, gwelsom fod gweithdrefn cwynion ysgrifenedig ar gael a bod manylion ynghylch sut y gallai cleifion wneud cwyn wedi'u cynnwys yn y Datganiad o Ddiben, ar y wefan ac ar ffurf taflen. Mae'r rhain yn nodi'n glir yr amserlenni ar gyfer cydnabod ac ymateb i gwynion. Yn unol â'r rheoliadau, cafodd manylion cyswllt AGIC eu cynnwys hefyd.

Disgrifiwyd y trefniadau ar gyfer adolygu digwyddiadau arwyddocaol a rhannu dysgu o'r rhain er mwyn hybu diogelwch a lles cleifion. Roedd digwyddiadau arwyddocaol yn cael eu cofnodi'n ffurfiol drwy system Datix¹.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygu'r sefydliad

Ar adeg ein harolygiad, roedd 13 o staff wedi'u cyflogi yn y clinig. Siaradwyd â nifer o'r staff oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad. Gallai pob un ddisgrifio eu rolau a sut roeddent yn cyfrannu at weithrediad cyffredinol y clinig. Ar adeg ein harolygiad, roedd swydd wag ar gyfer nyrs gofrestredig. Cadarnhaodd yr uwch aelodau o'r staff fod y swydd wag wedi'i llenwi a bod disgwyl i unigolyn ddechrau yn y dyfodol agos.

Câi gwasanaethau meddygol/ymgynghorol eu darparu gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol oedd yn ymweld (â breintiau ymarfer²) nad oeddent wedi'u cyflogi'n uniongyrchol gan y clinig. Roedd breintiau ymarfer yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob dwy flynedd yn ôl y gofyn.

Dangosodd y wybodaeth oedd yn ffeiliau'r staff a welwyd eu bod wedi cael hyfforddiant gorfodol, ynghyd â hyfforddiant arall oedd yn berthnasol i'w rolau.

Nodwyd bod pob aelod o'r staff wedi cael arfarniad o'i berfformiad yn y gwaith yn y 12 mis diwethaf. Roedd trefniadau ar waith rhwng y clinig a byrddau iechyd i rannu gwybodaeth am oruchwyllo ac arfarnu meddygon ymgynghorol drwy Bwyllgor Ymgynghori Meddygol y clinig, sy'n goruchwyllo'r broses o ddarparu gwasanaethau meddygol.

¹ Meddalwedd cofnodi digwyddiadau a rheoli risg diogelwch cleifion ar-lein yw Datix ar gyfer sefydliadau gofal iechyd a gofal cymdeithasol.

² Mae rhoi breintiau ymarfer yn broses hirsefydledig ym maes gofal iechyd annibynnol lle bydd ymarferydd meddygol yn cael caniatâd i weithio mewn ysbyty neu glinig annibynnol, mewn practis preifat annibynnol, neu o fewn gwasanaethau cymunedol.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd arferion a gweithdrefnau recriwtio'r gweithlu yn cael eu dilyn yn unol â rheoliadau a safonau.

Gwnaethom edrych ar gofnodion y staff a gweld bod y clinig wedi dilyn y gweithdrefnau priodol ac wedi cynnal y gwiriadau recriwtio perthnasol cyn iddynt ddechrau yn eu swydd.

Roedd gan bob aelod o'r staff dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Os nodir unrhyw achosion difrifol o dorri rheoliadau a phryderon o ran diogelwch a llesiant y cleifion sy'n defnyddio'r gwasanaeth, bydd darparwr cofrestredig y gwasanaeth yn cael ei hysbysu drwy [hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio](#). Mae cyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn fater difrifol ac yn gam cyntaf mewn proses a all arwain at ddwyn achos sifil neu droseddol.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu gwasanaethau annibynnol

Gall ein harolygiadau o wasanaethau annibynnol fod yn rhai lle rhoddir rhybudd neu'n rhai lle na roddir rhybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau lle na roddir rhybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y ffordd maent yn gweithredu fel arfer. Nid yw'r gwasanaeth yn cael unrhyw rybudd ymlaen llaw. Mewn rhai amgylchiadau byddwn yn penderfynu cynnal arolygiad lle rhoddir rhybudd, gan olygu y caiff y gwasanaeth hyd at 12 wythnos o rybudd o'r arolygiad.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn edrych ar y canlynol:

- Cydymffurfiaeth â [Deddf Safonau Gofal 2000](#)
- Cydymffurfiaeth â [Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol \(Cymru\) 2011](#)
- Cyrraedd y [Safonau Gofynnol Cenedlaethol](#) ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn gwasanaethau annibynnol.

Ceir manylion pellach am [y ffordd y mae AGIC yn arolygu gwasanaethau annibynnol](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw faterion roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ystafelloedd Ymgynghori Spire Abergele

Dyddiad arolygu: 23 Hydref 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylai'r clinigwyr gofnodi cynnig gwarchodwr yn nodiadau meddygol y cleifion.	Rheoliad 18. (1) (a) a (b). Safon 10. Urddas a pharch	Mae'r holl feddygon ymgynghorol yn Abergele wedi cael eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn cofnodi cynnig Gwarchodwr yn nodiadau meddygol y cleifion. Caiff hyn ei fonitro'n ddyddiol gan yr aelod o staff sy'n bresennol Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy adnodd archwilio a chyflwynir adroddiadau misol arni i Gyfarwyddwr yr Ysbyty. Hysbysir y person cyfrifol o unrhyw	Rheolwr y Clinig	7 Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ddiffyg cydymffurfio a chaiff cynllun datblygu ei lunio er mwyn mynd i'r afael â hynny. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa drwy'r sgrym staff.		
Dylai'r clinigwyr gofnodi mewn nodiadau meddygol pryd mae'r cleifion yn rhoi cydsyniad ar lafar i gael archwiliad neu driniaeth.	Rheoliad 40. (2) a Rheoliad 6. Atodlen 1 Safon 9. Gwybodaeth cleifion a chyfathrebu	Mae'r holl feddygon ymgynghorol yn Abergele wedi cael eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn cofnodi cynnig Gwarchodwr yn nodiadau meddygol y cleifion. Caiff hyn ei fonitro'n ddyddiol gan yr aelod o staff sy'n bresennol Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy adnodd archwilio a chyflwynir adroddiadau misol arni i Gyfarwyddwr yr Ysbyty. Hysbysir y person cyfrifol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio a chaiff cynllun datblygu ei lunio er mwyn mynd i'r afael â hynny. Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa drwy'r sgrym staff.	Rheolwr y Clinig	7 Rhagfyr 2018
Mae'n rhaid i'r datganiad o ddiben gael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu'r trefniadau		Mae'r Datganiad o Ddiben wedi cael ei ddiweddarau er mwyn adlewyrchu	Rheolwr y Clinig	Yn syth

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
rheoli cyfredol ac adlewyrchu'r ffaith na chynigir triniaethau laser cosmetig yn y clinig mwyach.		trefniadau rheoli cyfredol ac adlewyrchu'r ffaith na chynigir triniaethau laser yn y clinig mwyach.		
Dylid gwneud mwy o ymdrech i sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg fel mater o drefn.	Rheoliad 18. (1) (b) Safon 18. Cyfathrebu'n effeithiol	Mae gan Spire Healthcare gontract gyda gwasanaethau dehongli The Big Word. Bydd y staff yn cysylltu â The Big Word ar ran y cleifion am wasanaethau dehongli fel sydd angen. Cysylltwyd â darparwyr cyhoeddiadau gwybodaeth i gleifion ymwybyddiaeth cenedlaethol i ddarparu gwybodaeth yn Gymraeg. Rheolwr y Clinig i gysylltu â'r ymddiriedolaeth leol er mwyn cael manylion y cwmni cyhoeddi	Rheolwr y Clinig	Ion 2019
Lle na chaiff ei darparu yn y ddogfennaeth atgyfeirio, rhaid i'r clinigwyr sy'n gweithio yn y clinig ddwyn ynghyd a chofnodi gwybodaeth am hanes meddygol cleifion, ynghyd â'u meddyginiaeth ar bresgripsiwn, alergeddau ac ati er mwyn sicrhau bod y claf yn derbyn gofal diogel ac effeithiol.	Rheoliad 15. (1) Safon 8. Cynllunio a darparu gofal	Atgoffwyd meddygon ymgynghorol i gofnodi hanes meddygol y cleifion. Lluniwyd dogfen Hanes Cleifion newydd er mwyn nodi'r wybodaeth hon ac mae camau yn cael eu cymryd i'w gweithredu. Cesglir y wybodaeth ar gyfer pob claf newydd yn ystod yr	Rheolwr y Clinig	Diwedd Ion 2019

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		ymgyngoriad cyntaf ar y cyd â'r Ffurflen Gofrestru. Hefyd, caiff copïau o'r templed asesu eu dosbarthu i feddygfeydd lleol a byddant hefyd ar gael yn yr ystafell ymgynghori i'w cwblhau gan y meddygon ymgynghorol. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy archwiliadau rheolaidd.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Rhaid i'r clinigwyr sicrhau eu bod yn llofnodi ac yn dyddio cofnodion gofal y cleifon ar ôl pob ymgynghoriad.	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Mae'r holl feddygon ymgynghorol yn Abergele wedi cael eu hatgoffa i sicrhau eu bod yn llofnodi a dyddio cofnodion gofal cleifion yn nodiadau meddygol y cleifion. Caiff hyn ei fonitro'n ddyddiol gan yr aelod o staff sy'n bresennol. Caiff cydymffurfiaeth ei monitro drwy adnodd archwilio a chyflwynir adroddiadau misol arni i Gyfarwyddwr yr Ysbyty. Hysbysir y person cyfrifol o unrhyw ddiffyg cydymffurfio a chaiff cynllun datblygu ei lunio er mwyn mynd i'r afael â hynny.	Rheolwr y Clinig	7 Rhagfyr 2018

Yr hyn sydd angen ei wella	Rheoliad/ Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		Mae'r staff wedi cael eu hatgoffa drwy'r sgrym staff.		
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Rhaid i'r person cofrestredig sicrhau ei fod yn cyflawni ei rwymedigaethau o dan Reoliad 28 o Reoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, o ran ymweliadau â'r clinig a llunio adroddiadau yn dilyn ymweliadau o'r fath.	Rheoliad 28. Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd	Cynhaliwyd arolygiad darparwr o ymweliadau â'r clinig ychydig cyn arolygiad AGIC lle rhoddwyd rhybudd ac roedd cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad yn dilyn yr arolygiad darparwr hwn ar gael adeg Arolygiad AGIC. Mae'r Rheolwr Cofrestredig wedi trafod hyn gyda'r sefydliad er mwyn sicrhau bod adroddiadau ar gael yn y dyfodol.	Rheolwr Cofrestredig	Yn syth

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Sue Jones

Teitl swydd: Cyfarwyddwr yr Ysbyty

Dyddiad: 06-12-2018